



Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk
e-bost:

At yr Ymgeisydd
(trwy e-bost yn unig)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 31 Hydref 2022

Annwyl Ms Corless

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 51

Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

Cyngor ar ôl cyhoeddi penderfyniad i dderbyn y cais i'w archwilio

Ar 31 Hydref 2022, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y cais ar gyfer y prosiect uchod yn bodloni'r profion derbyn o dan adran 55 Deddf Cynllunio 2008. Mae rhestr wirio derbyn yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) a dogfennau'r cais wedi cael eu cyhoeddi ac maen nhw ar gael ar dudalen y prosiect ar ein gwefan.

Wrth gynnal gwiriadau yn ystod y cam derbyn, mae'r Arolygiaeth wedi gwneud rhai arsylwadau cychwynnol ynglŷn â'r cais. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys cyngor i'r Ymgeisydd a roddir o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â'r arsylwadau cychwynnol hyn. Dylai'r Ymgeisydd roi sylw i'w gynnwys ac ystyried sut y gellid cymryd camau priodol i ymateb.

Amlygu ymgynghoriad ar sail ragofalus

O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori defnyddio dull ragofalus o ymgynghori o dan a42(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 er mwyn sicrhau bod yr holl unigolion y gallai'r cais effeithio arnynt, neu a allai fod yn debygol o fod â buddiant yn y cais, yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn yn yr Archwiliad o'r cais. Ar y sail hon, gallai'r Ymgeisydd ddymuno hysbysu'r cyrff a restrir ym Mlwch 6 y rhestr wirio adran 55 ac unrhyw gynghorau Cymuned/Tref perthnasol pan fydd yn cyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008, oni bai bod cyfiawnhad penodol pan nad oes angen gwneud hyn.

Byddai'r Arolygiaeth yn cyfeirio at Nodyn Cyngor Tri: Hysbysiad o AEA ac Ymgynghori, yn enwedig paragraff A2 (Cymhwyso 'prawf perthnasedd' y Rheoliadau CFfGR).

Cynlluniau Gwaith Rhan 1 a 2 (Dogfen 2.4)

Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod Erthygl 6 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yn cyfeirio at derfynau gwyrto ar y Cynlluniau Gwaith, ond nid yw'n ymddangos bod y Cynlluniau Gwaith fel y'u cyflwynwyd yn dangos terfynau gwyrto. Nid yw'n ymddangos ychwaith fod y Cynlluniau Gwaith yn cynnwys llinell ganol a phwyntiau dechrau a diwedd y cynllun.

Mae'r Arolygiaeth hefyd yn nodi bod anghysondebau rhwng y disgrifiadau o leoliadau'r gwaith yn y Gorchymyn Datblygu drafft a'r Cynlluniau Gwaith.

Cynghorir yr Ymgeisydd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynlluniau yn erbyn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn gyflawn ac yn gywir.

Llyfr Cyfeirio (Dogfen D4.3) a Chynlluniau Tir (Dogfen D.2.2)

Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod rhai anghysondebau yn y Llyfr Cyfeirio o ran y Cynlluniau Tir. Mae'r rhain yn cynnwys lleiniau dyblyg (gweler dalen 6 y Cynlluniau Tir), lleiniau wedi'u rhestru ar y dalenni anghywir a rhai achosion lle nad yw cyfeirbwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn y Llyfr Cyfeirio yn ymddangos ar y Cynlluniau Tir (gweler lleiniau 1-8 yn y Llyfr Cyfeirio). Mewn rhai Cynlluniau Tir, ceir lleiniau nad yw'n ymddangos eu bod wedi'u tywyllu gan ddefnyddio'r lliw cywir. Dylai'r Ymgeisydd adolygu'r Cynlluniau Tir i sicrhau bod yr holl gategorïau defnydd/liwiau wedi'u nodi'n gywir.

Cynghorir yr Ymgeisydd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynlluniau yn erbyn y Llyfr Cyfeirio a sicrhau bod y Cynlluniau Tir yn hygyrch.

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

Pan fydd cynllun yn cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy, mae'r Arolygiaeth yn awgrymu bod cynllun allwedd yn cael ei ddarparu sy'n dangos y berthynas rhwng y gwahanol ddalenni.

Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy Rhan 1 a 2 (Dogfen D.2.5)

Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod rhai anghysondebau rhwng y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy (gweler y Cofnod ar ddalen 8 a llwybr troed 308/1 ar ddalen 15 y Cynllun Mynediad a Hawliau Tramwy).

Cynghorir yr Ymgeisydd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynlluniau yn erbyn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft.

Datganiad Amgylcheddol Atodiad 18.5 Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (Dogfen D.6.3.18.5)

Er yr ystyrir bod yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn ddigonol ar y cam hwn, mae'n ymddangos bod Atodiadau A i D ar goll. Awgrymir bod y dogfennau hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, cyn i'r Archwiliad ddechrau, fel y byddant ar gael gyda holl ddogfennau eraill y cais cyn i Sylwadau Ysgrifenedig ac Adroddiadau ar yr Effaith Leol gael eu cyflwyno.

Mân wallau a hepgoriadau

Ceir mân wallau a hepgoriadau, fel yr adlewyrchir ym Mlwch 30 y rhestr wirio derbyn.

Gallai'r Ymgeisydd ddymuno adolygu'r Cais a gyflwynwyd i sicrhau bod yr holl atodiadau y cyfeiriwyd atynt wedi cael eu cyflwyno ac y cyfeiriwyd atynt gan ddefnyddio'r teitlau cywir.

Rhowch sylw gofalus i'r cyngor a roddir yn y llythyr hwn a gweithredwch arno yn unol â hynny. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at archwiliad mwy effeithlon ac yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw Awdurdod Archwilio yn y dyfodol bod y dogfennau'n gyflawn ac yn gywir.

Hyderwn y bydd y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi. Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r materion hyn, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir

Karl-Jonas Johansson

Karl-Jonas Johansson
Rheolwr Achos

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk
e-mail:

To the Applicant
(By email only)

Your Ref:

Our Ref: EN070007

Date: 31 October 2022

Dear Ms Corless

Planning Act 2008 (as amended) – Section 51

Application by Liverpool Bay CCS Limited for an Order Granting Development Consent for the HyNet Carbon Dioxide Pipeline

Advice following issue of decision to accept the application for examination

On 31 October 2022 the Secretary of State decided that the application for the above project satisfied the acceptance tests under section 55 of the Planning Act 2008 (PA2008). The Planning Inspectorate's (The Inspectorate) acceptance checklist and the application documents have been published and made available on the project page of our website.

In undertaking checks at the acceptance stage, the Inspectorate has made some initial observations in relation to the application. This letter comprises advice to the Applicant provided under section 51 of the PA2008 in respect of these initial observations. The Applicant should pay attention to its content and consider how appropriate action might be taken in response.

Consultees identified on a precautionary basis

Given the individual circumstances of this case, the Planning Inspectorate advises taking a precautionary approach to consultation under s42(1)(a) of PA2008 to ensure that all persons potentially affected by, or potentially likely to have an interest in the application are given the opportunity to participate fully in the Examination of the application. On this basis, the Applicant may wish to notify the bodies listed in Box 6 of the section 55 checklist and any relevant Community/Town councils when it serves notice of the accepted application under s56(2)(a) of the PA2008, unless there is a specific justification why this is not necessary.

The Inspectorate would refer to Advice Note Three: EIA Notification and Consultation, especially paragraph A2 (Applying the 'Relevance test of the APFP Regulations).

Works Plans Part 1 and 2 (Doc 2.4)

The Inspectorate notes that Article 6 of the draft Development Consent Order refers to limits of deviation on the Works Plans, however the Works Plans as submitted do not appear to depict limits of deviation. The Works Plans also appear not to include a centre line and start and end points of the scheme.

The Inspectorate also notes that there are discrepancies between the descriptions of the locations of the works described in the draft Development Order and the Works Plans.

The Applicant is advised to carry out a comprehensive review of the plans against the draft Development Consent Order to ensure all information provided is complete and accurate.

Book of Reference (Doc D4.3) and Land Plans (Doc D.2.2)

The Inspectorate notes that there are some discrepancies in the Book of Reference in relation to the Land Plans. These include duplicate plots (see sheet 6 of the Land Plans), plots listed on the incorrect sheets and some instances where reference points included in the Book of Reference do not appear on the Land Plans (see plot 1-8 in the Book of Reference). In some Land Plans there are plots which do not appear to have the correct shading. The Applicant should review the Land Plans to ensure all use categories/shading are correctly identified.

The Applicant is advised to carry out a comprehensive review of the plans against the Book of Reference and to ensure that the Land Plans are accessible.

The Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

The Inspectorate suggests that where a plan comprises three or more separate sheets a key plan is provided showing the relationship between the different sheets.

Access and Rights of Way Plans Part 1 and 2 (Doc D.2.5)

The Inspectorate notes that there are some discrepancies between the draft Development Consent order and the Access and Rights of Way Plans (see Ledger on sheet 8 and footpath 308/1 on sheet 15 of the Access and Rights of Way Plan).

The Applicant is advised to carry out a comprehensive review of the plans against the draft Development Consent Order.

Environmental Statement Appendix 18.5 Flood Consequences Assessment (Doc D.6.3.18.5)

Although the Flood Consequences Assessment is considered to be adequate at this stage, Annexes A to D appear to be missing. It is suggested that these documents are submitted as soon as possible, before the commencement of the Examination, so they are available with all other application documents in advance of submissions of Written Representations and Local Impact Reports.

Minor errors and omissions

There are minor errors and omissions, as reflected in Box 30 of the acceptance checklist.

The Applicant may wish to review the submitted Application to ensure all referenced annexes have been submitted and are referenced with the correct titles.

Please pay close attention to the advice set out in this letter and act on it accordingly. This will contribute towards a more efficient examination and give any future Examining Authority comfort that the documentation is complete and accurate.

We trust you find this advice helpful, however if you have any queries on these matters please do not hesitate to contact our office using the contact details at the head of this letter.

Yours sincerely

Karl-Jonas Johansson

Karl-Jonas Johansson
Case Manager

This communication does not constitute legal advice.
Please view our [Privacy Notice](#) before sending information to the Planning Inspectorate.